

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2019

YN BRESENNOL: Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Alun Roberts, J. Arwel Roberts

Aelodau Portffolio

Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)
Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)
Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuencid)
Cynghorydd R.G. Parry OBE FRAGS (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff)

WRTH LAW: Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitemau 3 a 4)
Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 3)
Prif Swyddog Cynllunio (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Richard Owain Jones, Bryan Owen, Mr Keith Roberts , Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig), Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorydd Dafydd Roberts (drwy wahoddiad ar gyfer eitem 5), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Diolchodd y Cadeirydd i'w gyd-aelodau o'r Pwyllgor am ei ail ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a diolchodd yn benodol i'r Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd am gadeirio'r cyfarfodydd ar 19 Mawrth a 17 Mai, 2019 yn ei absenoldeb.

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cafodd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodwyd isod eu cyflwyno **a'u cadarnhau** fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd ar y dyddiadau hynny –

- 19 Mawrth, 2019
- 14 Mai, 2019
- 17 Mai, 2019

3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2018/19 er ystyriaeth y Pwyllgor. Dangosodd yr adroddiad sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr oedd ar ddiwedd pedwerydd chwarter 2018/19.

Darparodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol grynodedb o'r canlyniadau perfformiad diwedd blwyddyn gan dynnu sylw at y meysydd hynny lle roedd perfformiad yn is na'r targed ac yn GOCH ar y cerdyn sgorio – ychydig iawn o'r rhain oedd o gymharu â'r mwyafrif o feysydd a oedd wedi perfformio yn unol â'r targed ac a oedd yn WYRDD ar y cerdyn sgorio. Darparodd yr adroddiad adlewyrchiad cadarnhaol iawn o berfformiad y Cyngor yn gyffredinol ac mewn sawl maes fe welwyd gwelliant ar berfformiad 2017/18 a oedd yn braf iawn i'w adrodd o ystyried yr heriau y mae'r awdurdod hwn ac awdurdodau lleol eraill yn eu hwynebu. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y Dangosyddion Perfformiad sydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol a'r rhesymau am hynny fel a ddarperir gan y gwasanaethau perthnasol (fel y nodir ym mharagraff 2.1.9). Er bod perfformiad Chwarter 4 o ran presenoldeb yn y gwaith yn well nac ar gyfer Chwarter 3, roedd y sgôr cronos o 10.34 diwrnod gwaith a gollwyd ar gyfer pob aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ychydig yn siomedig gan ei fod yn uwch na'r targed o 9.75 ar gyfer pob gweithiwr FTE. Rhoddodd yr Aelod Portffolio sicrwydd bod hyn yn derbyn sylw ar lefel uchel. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyffwrdd ar Wasanaeth Cwsmer ac unwaith eto yma yn dangos darlun a oedd yn gwella gan nodi hefyd fod nifer defnyddwyr ApMôn a gwefan y Cyngor wedi parhau i gynyddu a'r gobaith oedd y byddai hyn yn arwain at fwy o ffurflenni ar-lein a chyswllt ar-lein.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn i ddod, y byddai'n ddefnyddiol adlewyrchu ar bwrpas y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn declyn rheoli er mwyn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer trigolion yr Ynys mor dda â phosibl. Wedi'i asesu yn y cyd-destun hwn, roedd perfformiad y Cyngor drwyddi draw yn galonogol iawn gyda dim ond 3 allan o oddeutu 50 Dangosydd Rheoli Perfformiad yn is na'r targed sy'n rhoi sicrwydd i Aelodau am gadernid y sylfaen sydd wedi'i rhoi yn ei lle a fyddai hefyd yn hwyluso gwelliannau pellach wrth symud ymlaen.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y canlynol gan y Pwyllgor –

- **Y camau sy'n cael eu cymryd i reoli absenoldebau salwch mewn ysgolion cynradd – DP 04a yn dangos yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio.** Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu bod yr ymagwedd ar y cyd ag Adnoddau Dynol sy'n cael ei cymryd

er mwyn targedu'r 10 ysgol gynradd lle ystyriwyd bod lle i wneud gwahaniaeth ynghyd â sicrhau bod yr holl ysgolion yn cadw at y polisiau rheoli yn dechrau sicrhau canlyniadau dros y ddau dymor. Un o'r materion mwyaf heriol oedd absenoldebau salwch hirdymor a oedd yn anodd ei ddatrys.

- Yn genedlaethol, bod perfformiad yr Awdurdod o ran absenoldeb salwch yn ei osod yn y 10 cyntaf o'r 20 Cyngor a oedd wedi adrodd ar eu ffigyrau perfformiad hyd yma. Roedd y Cyngor a oedd yn y safle isaf o'r 20 â sgôr o 13 o ddyddiau gwaith wedi'u colli.
- **DP 08 – canran y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) a gynhaliwyd a ddangosir yn GOCH.** Nodwyd bod y tuedd ar gyfer y dangosydd hwn at i lawr a bod perfformiad o 58% yn eithaf pell o'r targed o 80%. Rhoddodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ddiweddiariad i'r Pwyllgor gyda'r data CAO diweddaraf a oedd yn rhoi sgôr cronnos o 74% ar gyfer y flwyddyn a oedd yn uwch na'r 69% ar gyfer 2017/18 er bod ffigwr Chwarter 4 yn dal yn is na'r chwarter blaenorol.
- **Dangosydd DP 11 – canran y staff â Thystysgrif DBS (os oes angen un arnynt ar gyfer eu rôl) yn dangos fel 98%.** Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o faint o 2,200 o staff y Cyngor oedd angen Tystysgrif DBS. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) na allai ddarparu union ffigwr heb gyfeirio at y gwasanaethau sy'n rheoli hyn yn uniongyrchol ond gallai edrych i mewn i hyn ac adrodd yn ôl. Wrth gadarnhau ymhellach ac er mwyn tawelu unrhyw bryderon sydd gan y Pwyllgor ynglŷn â'r mater fe ddywedodd y Swyddog, mewn amgylchiadau lle efallai y byddai oedi gyda'r broses o gael tystysgrif, y byddai'r Pennaeth Gwasanaeth yn cynnal asesiad risg er mwyn gweld a oedd yr unigolyn yn gallu cyflawni dyletswyddau'r swydd ai peidio. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai dyma'r drefn yn y Gwasanaeth Oedolion h.y. cai pob penderfyniad o ran a ddylid gadael unigolion sydd wedi derbyn asesiad risg i barhau i weithio yn y tymor byr tan iddynt gael Tystysgrif DBS ei gyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth yn ddiethriad. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd targed nac unrhyw wybodaeth arall i gyd-fynd â'r DP ac mewn ymateb i hynny, hysbyswyd y Pwyllgor fod gan Fwrdd Diogelu Corfforaethol yr Awdurdod gyfrifoldeb am faterion o'r fath a bod angen sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei huwchgyfeirio a'i rhaeadru i lawr o'r Bwrdd hwnnw.
- **Dangosydd Pam/018 – canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd ar amser yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 81% yn erbyn targed o 90%.** Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio wrth y Pwyllgor fod nifer o ffactorau wedi effeithio ar berfformiad gan gynnwys cyflwyno a phrofi system weinyddol newydd a oedd yn golygu'r angen i ail ddiffinio rhai rolau a chyfrifoldebau a gafodd sgil effaith ar y llif gwaith. Roedd hyn, ynghyd â chyflwyniad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi bod yn her ac wedi arwain at oedi mewn rhai achosion. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi treulio amser yn ystod y flwyddyn yn mynd i'r afael ag ôl-groniad o achosion gorfodi. Byddai'r amser a dreuliwyd yn canolbwyntio ar y pethau sylfaenol yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol gyda'r swydd wag yn y Tîm Ceisiadau Cynllunio bellach wedi ei llenwi a swydd yn ymwneud â GDPR wedi ei chreu a mwy o ffocws wedi'i roi i reolwyr a swyddogion a fydd yn gwella gwytnwch y Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.
- **Pryder am broffil gorfodi o fewn Cynllunio fel maes arbenigol a chapasiti digonol o fewn y Tîm Gorfodi.** Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio wrth y Pwyllgor fod rhai bylchau wedi bod yn y Tîm Gorfodaeth Gynllunio sydd rŵan yn cael eu datrys fel rhan o'r ymdrech i ddod â lefel uchel o arbenigedd i'r broses orfodi ac er mwyn defnyddio systemau newydd mewn ffordd fwy effeithiol fel bod Gorfodaeth yn gweithredu'n fwy rhagweithiol.
- **Dangosydd PAM/025 (PM19) – roedd canran y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n disgwyl am ofal cymdeithasol fesul 100 o'r boblogaeth 74+ oed yn GOCH yn dilyn cofrestru perfformiad o 7.78 ar ddiwedd y llynedd yn erbyn targed blynyddol o 3.** Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod blaenoriaeth

wedi'i roi yn y flwyddyn ddiwethaf i gryfhau'r ddarpariaeth yn y gymuned trwy gwahanol ffyrdd er mwyn cefnogi pobl i allu aros yn eu cartrefi yn hytrach na mynd i ofal preswyl, a hefyd eu galluogi i adael yr ysbyty yn gynt. Er bod y gwaith hwn wedi profi'n llwyddiannus ar y cyfan o ran rhyddhau pobl i ofal cartref o fewn 48 awr a gan hynny galluogi mwyafrif yr unigolion i ymadael â'r ysbyty, neu sydd angen pecyn yn y gymuned, mae problem yn parhau o ran codio cleientiaid gyda gwahaniaeth barn am y ffigyrau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal sy'n deillio o hynny. Mae angen mwy o amser er mwyn gallu cadarnhau'r ffigyrau gyda BIPBC ac mae hefyd angen i'r Gwasanaeth fod yn rhan o'u proses gymeradwyo ('sign off') bob mis – bydd hyn yn derbyn sylw dros y misoedd nesaf. Ar y cyfan, roedd y Gwasanaeth yn hyderus bod gwelliannau wedi eu gwneud o ran cryfhau'r gwasanaeth ail alluogi a'r tîm ond o ran y cafeat fod y lleoliadau preswyl yn dal i fod o dan bwysau. **Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y trafodaethau â BIPBC am wella'r broses codio data.**

- **Pryder am reoli gwariant yn y Gwasanaethau oedolion oherwydd y cynnydd mewn galw.** Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y Pwyllgor fod y Gwasanaeth wedi mynd ati i weithio'n galed gyda'r unigolion hynny lle roedd ymyrraeth amserol yn golygu y gellid darparu ar eu cyfer o fewn y gymuned heb yr angen am fynediad at Wasanaethau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio sicrhau ei fod yn comisiynu yn y ffordd orau bosibl er mwyn cadw costau pecynnau gofal i lawr. Gall y sefyllfa newid o un dydd i'r llall a chynhelir trafodaethau dyddiol â BIPBC yn enwedig mewn perthynas â chostau Gofal Iechyd Parhaus sy'n gallu bod yn faes ansicr ac yn gallu achosi anghytundeb. Roedd yr agwedd tuag at reoli gwariant felly wedi bod yn ddeublyg – rheoli galw ar y pwynt mynediad a chynnwys y defnydd o becynnau gofal drud. Rhybuddiodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod y nifer gynyddol o bobl hŷn ynghyd â'r cynnydd yn y galw o fewn iechyd meddwl ac anableddau dysgu wedi golygu bod rheoli galw a chostau o ganlyniad i hynny yn y Gwasanaethau Oedolion wedi bod yn heriol ac y bydd hynny'n parhau.
- **Dangosydd PAM/012 – canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref a welodd ostyngiad o 65.2% yn 2017/18 i 52.93% yn 2018/19.** Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai wrth y Pwyllgor fod tri absenoldeb tymor hir wedi bod o fewn y Tîm Opsiynau Tai a oedd wedi effeithio ar berfformiad a hynny yn ychwanegol at y ffaith bod 724 o bobl wedi cyflwyno eu hunain i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn galendr – o dan deddfwriaeth digartrefedd mae angen i'r Gwasanaeth asesu ymgeiswyr os ydynt dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn amserlen o 56 diwrnod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd 87 o achosion yn parhau ar agor o gymharu â 59 y flwyddyn flaenorol gyda 38 ohonynt wedi'u hagor ym mis Mawrth. Sicrhawyd y Pwyllgor gan y Swyddog fod y dirywiad mewn perfformiad yn cael ei ystyried yn rhywbeth dros dro a'i bod yn sefyllfa eithriadol oherwydd absenoldebau staff a galw uwch; roedd 2 o'r 3 a oedd i ffwrdd o'r gwaith am gyfnodau estynedig bellach wedi dychwelyd ac y dylai hynny helpu i wella perfformiad.
- **Cynnydd yn y benthycu a wnaed – £15,563,536 a fenthycwyd yn erbyn cyllideb o £5,783,000 gan roi amrywiad o £169.13%.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf wedi gweithredu strategaeth o ddefnyddio ei falansau arian parod mewnol ei hun er mwyn ariannu gwariant cyfalaf lle bo hynny'n bosibl er mwyn sicrhau'r lefel isaf Bosibl o fenthycu allanol a'r costau ynghlwm â hyn. Wrth i arian wrth gefn y Cyngor leihau, felly hefyd arian parod y cyngor gan olygu bod benthyciadau wedi cael eu cymryd mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor a hefyd er mwyn manteisio ar y graddfeydd benthycu ffafriol a gynigir gan Llywodraeth Cymru am gyfnodau cyfyngedig fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a oedd, fe ystyriwyd, yn gam synhwyrol i'w gymryd gan fod y tymor benthycu yn 50 mlynedd.

Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a ddarparwyd gan y Swyddogion / Aelodau portffolio ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol –

- Yn nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellir yn yr adroddiad mewn perthynas â meysydd sy'n tanberfformio, adolygu Dangosyddion Perfformiad 2019/20 a thargedau Presenoldeb yn y Gwaith, Gwasanaeth Cwsmer a threfniadau Rheoli Cwynion yn y Gwasanaethau Plant, ac ei fod
- Yn argymhell mesurau lliniaru ar gyfer y meysydd hynny fel y nodir yn yr adroddiad.

CAMAU PELLACH: Y Pwyllgor i dderbyn diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar gynnydd o ran trafodaethau â BIPBC o ran gwella'r broses codio data mewn perthynas â ffigyrau DETOC.

4 MONITRO GWELLIANT YN Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r meysydd yr oedd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi canolbwyntio arnynt ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd chwarterol blaenorol ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Nodwyd fod y gwaith o wella'r gwasanaeth bellach yn cael ei yrru gan Gynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd newydd yn cynnwys 5 o themâu a oedd wedi disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Blaenorol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod yr adroddiad diweddaraf hwn yn darparu tystiolaeth graffigol o'r gwelliant mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yn Chwarter 4 2018/19 o'u cymharu â pherfformiad yn erbyn yr un dangosyddion yn Chwarter 4 2017/18. Aeth â'r Pwyllgor drwy bob un o'r Dangosyddion Perfformiad gan egluro'r agweddau o'r gwasanaeth a fesurwyd gan amlygu arwyddocâd y gwelliant mewn perthynas â phob un yn unigol ac ar y cyd, gan adlewyrchu ar y newidiadau positif a'r datblygiadau cadarnhaol a oedd yn digwydd i'r gwasanaeth yn gyffredinol. Cafodd y positifrwydd ei atgyfnerthu ymhellach gan y gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 1 yr oedd y Gwasanaeth wedi eu derbyn yn ystod Chwarter 4 ynghyd â'r 68 o ganmoliaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn dangos gwerthfawrogiad o broffesiynoldeb staff, y gefnogaeth a dderbyniwyd gan deuluoedd a'r perthnasau cadarnhaol a ffurfiwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys plant. Yn ogystal â chanolbwyntio ar berfformiad, mae'r Gwasanaeth wedi treulio amser yn datblygu polisiau sy'n ymwneud yn benodol ag ôl-ofal a materion ariannol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mae Pecyn Maethu newydd wedi'i lansio sy'n creu mwy o ddiddordeb mewn maethu.

Gan gyfeirio at drefniadau'r dyfodol, gofynnodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol am ganiatâd y Pwyllgor i sefydlu'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n ymdrin â Gwasanaethau Oedolion ynghyd â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Byddai hyn yn galluogi'r Gwasanaethau Oedolion i dderbyn yr un lefel o graffu ag y mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi'i dderbyn yn y blynyddoedd diwethaf a byddai hefyd yn galluogi Aelodau Etholedig i ddatblygu gwybodaeth fanylach am y prosesau a'r heriau o fewn y Gwasanaethau Oedolion. Roedd y cynnig hwn wedi'i argymhell gan y Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn eu cyfarfodydd ar 22 Mai, 2019 a 23 Mai 2019.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad –

- Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r gwelliant mewn perfformiad y mae'r data yn yr adroddiad yn tystio iddo ac fe groesawyd hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran

gwella cadernid polisïau, prosesau a gweithdrefnau o fewn y Gwasanaeth. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut roedd y gwelliant sylweddol mewn perfformiad wedi'i gyflawni, o ran nifer y plant ysgol sydd wedi newid ysgol am resymau nad ydynt yn rhai triosiannol, o ystyried y llynedd bod bron i draean o'r plant oedran ysgol wedi gorfod newid ysgol am resymau nad oeddynt yn rhai trosiannol gyda 19 ym mis Medi yn unig o gymharu â 6.5% ar gyfer eleni. Cynghorwyd y Pwyllgor fod mwy o sefydlogrwydd o fewn y tîm Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Plant sy'n golygu bod modd datblygu perthnasau mwy sefydlog a chyson gyda phlant unigol a bod hyn ynghyd â gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Gwasanaeth yn bod yn fwy parod i herio rhybuddion gan asiantaethau preifat o ddod â lleoliad i ben er mwyn trafod unrhyw faterion a allai fod wedi codi, i gyd wedi cyfrannu at sicrhau bod perfformiad yn y cyswllt hwn yn is na'r targed.

- Roedd y Pwyllgor yn gefnogol o sicrhau'r un lefel o graffu i'r Gwasanaethau Plant ond gofynnwyd am fwy o eglurder pam yr ystyriwyd y byddai cyfuno'r gwaith o graffu dau wasanaeth o fewn un panel yn fwy effeithiol na chael dau banel ar wahân. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr ystyriwyd fod yr arbenigedd a'r wybodaeth o Wasanaethau Plant y mae Aelodau wedi'i chael drwy'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant angen ei efelychu gyda'r Gwasanaethau Oedolion. Y ffordd orau o gyflawni hyn, gan gymryd i ystyriaeth y capasiti cyfyngedig o ran niferoedd yr Aelodau Etholedig ar y Cyngor, fyddai drwy gael un panel gyda chylch gwaith i gynnwys Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Oedolion. Byddai 6 mis cyntaf y panel newydd yn cael ei dreulio yn ymgyfarwyddo/hyfforddi'r aelodau ym mhob agwedd o'r Gwasanaeth Oedolion (hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth fel a fu'n nodwedd o raglen waith y Panel gwella Gwasanaethau Plant presennol) gyda'r elfen perfformiad i gael sylw drwy raglen waith yn cyfuno elfennau o'r ddau wasanaeth gyda'r nod yn y pen draw o wella dealltwriaeth Aelodau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gyfarwydd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai'r amcan oedd datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad Aelodau o anghenion y Gwasanaethau Oedolion i'r un lefel o aeddfedrwydd a ddatblygwyd yng nghyd-destun y Gwasanaethau Plant. Byddai hyn yn galluogi Aelodau i graffu a herio'r Gwasanaethau Oedolion gyda hyder, oherwydd bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i allu gwneud hynny, fel sydd wedi digwydd gyda'r Gwasanaethau Plant.

Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a ddarparwyd gan y Swyddogion/Aelodau Portffolio mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd, PENDEFFYNWYD bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol –

- Yn cadarnhau ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a llongyfarch y Gwasanaeth am hynny.
- Cymeradwyo sefydlu'r y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gallu dechrau ar y gwaith ar unwaith.

NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU PELLACH

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn disgrifio gwaith ac allbwn y Panel yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2019 ac Ebrill 2019 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel, ar waith y Panel yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn cynnwys themâu'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd a'r Ymweliadau Laming. Yn ychwanegol, roedd y Panel ym

mis Ebrill wedi ymgymryd â hunan-werthusiad o'i effaith a byddai'n adrodd yn ôl ar y canlyniad yn yr adroddiad cynnydd nesaf i'r Pwyllgor a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer Medi, 2019. Nid oedd unrhyw faterion wedi eu huwchgysyfeirio ar gyfer sylw'r Pwyllgor yn y chwarter hwn a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd yn fodlon â chadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a chadarnhau ei fod yn fodlon â gwaith a chyfeiriad y Panel, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r canlynol –

- Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cyflawni ei raglen waith.
- Bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth bellach wedi ei fabwysiadu, gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol bellach wedi ei gau.
- Y meysydd gwaith sydd wedi eu cynnwys yn ystod Ymweliadau Laming fel ffordd o gryfhau atebolrwydd a gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel.
- Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel sy'n cael ei darparu'n fewnol.

NI GYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU PELLACH

5 AELODAETH O'R PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un aelod ychwanegol i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid.

Eglurodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, wrth i'r Panel esblygu ac fel rhan o'r hunan-werthusiad diwedd blwyddyn, cafodd ei argymhell fod aelodaeth presennol y Panel o 4 aelod (2 aelod o bob pwyllgor sgriwtini) yn cael ei gynyddu gan 2 aelod ychwanegol – un o bob pwyllgor sgriwtini – er mwyn cynyddu capasiti a darparu agwedd fwy cadarn tuag at sgriwtini cyllid.

Ar ôl cytuno y dylid ymestyn aelodaeth y Panel, PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd John Griffith i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid.

NI GYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU PELLACH

6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ac **fe'i nodwyd** gan Aelodau heb unrhyw newidiadau.

**Cynghorydd Aled Morris Jones
Cadeirydd**